TAR Cynradd

5ed o Fawrth 2018

Nod y ddarlith

- Trafod gwallau cyffredin sy'n codi yn y papur TCA.
- Ymarferion i gywiro'r gwallau.

Arholiad

- 27 Ebrilll – prynhawn
- Ailsefyll – cwestiwn wedi'i ofyn
- Awr a hanner – tri chwestiwn.
- Cywiro gwallau'n werth llai o farciau

- Cyflwyno eich darnau ysgrifennu rhydd os gwelwch yn dda

- Targed iaith – cyflwyno darn llafar I fi ar e-bost.
- Trefnu tiwtorial

Tasg Golygu / Cywiro.

Fel arfer, bydd 22 gwall yn y darn.

Cewch ddefnyddio Cysill yn yr arholiad, ond dim ond 4 gwall bydd Cysill yn cywiro. Cewch ½ marc yr un am y 4 gwall bydd Cysill yn cywiro.

Mae 18 marc yn weddill (1 marc am bob gwall)- rhaid i chi ddod o hyd i'r 18 gwall yma. Ni fydd Cysill yn eu hadnabod.

Cyngor cyffredinol

- Peidiwch ag aralleirio brawddegau neu ail ysgrifennu brawddegau mewn ffordd arall. Ni chewch eich gwobrwyo am hyn oherwydd nid ydych yn dangos eich dealltwriaeth o'r gwallau.

- Rhaid i chi ddangos eich bod yn adnabod gwall ac yn gallu ei gywiro.

Grwpio'r gwallau

Beth ydy'r gwahaniaeth rhwng....

Bydda i

Byddai

Byddwn

Bydden

Rhaid bod yn ofalus!!

Bydda i	=	*I will*
Byddwn ni	=	*We will*
Byddwn i	=	*I would*
Bydden ni	=	*We would*
Byddai	=	*He would / she would / it would*

Ysgrifennwch gyfres o frawddegau er mwyn profi eich dealltwriaeth.

Ffurfiau Bod

Dyfodol	Amodol
Bydda i	Byddwn i
Byddi di	Byddet ti
Bydd e	Byddai e
Bydd hi	Byddai e
Byddwn ni	Bydden ni *(byddem ni)*
Byddwch chi	Byddech chi
Byddan nhw	Bydden nhw

Treiglo gwrthrych y ferf.

Dyma wall sy'n codi'n gyson yn y darn cywiro.

Rhaid treiglo gwrthrych berf gryno'n feddal.

Er enghraifft:

Agorodd Miriam pecyn o greision. > Agorodd Miriam becyn o greision.

Amgaeaf cofnodion y cyfarfod diwethaf. > Amgaeaf gofnodion…

Llwyddodd Siân cyflawni ei thargedau. > Llwyddodd Siân gyflawni.

Beth ydy'r gwallau? Cywirwch y brawddegau canlynol.

1. Yn anffodus, collodd y dysgwyr diddordeb wrth i'r wers ddatblygu.
2. Ar ddiwedd pob tymor, ysgrifenna'r athrawon llythyr at y rhieni yn crynhoi gwaith y tymor.
3. Cofiwch dod â chot gynnes a phecyn bwyd ar gyfer y daith.
4. Dywedodd Tomos a Rhian bod Elin yn dweud celwydd.
5. Enillodd blwyddyn tri a phedwar cystadleuaeth chwaraeon y Sir.

Beth ydy'r gwall... Cyw... br... gau
can...

Rhaid treiglo gwrthrych berf gryno'n feddal.

Er mwyn dod o hyd i'r gwrthrych, gofynnwch **BETH?**

...weud

...wa... cystadleuaeth
...chwaraeon y S...

Yr Arddodiaid

1. TM yn dilyn arddodiaid syml.

i mynd > i fynd
dros pont > dros bont

2. Rhedeg yr arddodiaid.

i nhw > iddyn nhw
gan hi > ganddi hi

3. Berfenwau ac arddodiaid.

Mynd i > mynd at
ysgrifennu i > ysgrifennu at
dweud i > dweud wrth

Beth ydy'r gwallau? Cywirwch y brawddegau canlynol.

Mae plant y dosbarth derbyn yn gyffrous iawn i mynd ar taith i'r stadiwm yng Nghaerdydd. Bydd rhaid i nhw cofio dod a phecyn bwyd gyda nhw. Os oes gennych cwestiwn, ysgrifennwch e-bost i'r pennaeth. Os oes gan eich plentyn unrhyw anghenion dietegol, rhaid i chi dweud i'r athro sy'n arwain y daith cyn i'r bws gadael.

Beth ydy'r gwallau? Cywirwch y brawddegau canlynol.

Mae plant y dosbarth derbyn yn gyffrous iawn i mynd ar taith i'r stadiwm yng Nghaerdydd. Bydd rhaid i nhw cofio dod a phecyn bwyd gyda nhw. Os oes gennych cwestiwn, ysgrifennwch e-bost i'r pennaeth. Os oes gan eich plentyn unrhyw anghenion dietegol, rhaid i chi dweud i'r athro sy'n arwain y daith cyn i'r bws gadael.

Gêm Adolygu

Chwaraewch y gêm fwrdd er mwyn adolygu'r defnydd cywir o'r arddodiaid

DECHRAU ⇨	Dweud **wrth + fi**	*ymlaen 2*	gofyn cwestiwn i **+ fe**	Ysgrifennu **at + nhw**	Gwrando **+ ar + fi**
Mynd + at **+ y pennaeth**	*Speak to me first*	Pediwch â phoeni **am + hi**	*yn ôl 1*	*Tell me the answer*	⇦ Dod â + arian gyda chi
⇨ *Write to the parents*	Edrych + ar + hi	Rydw i'n cwrdd _____ ffrind heno	*Look at the screen*	*yn ôl 2*	*Bring a coat with you.*
ymlaen 3	Dywedwch yr ateb ______ **eich ffrind**	*Listen to me first*	Siaradwch ______ phawb yn y grŵp	Troi **at + partner**	⇦ *Ask me*
⇨	*Take a coat with you*	yn ôl 4	*Listen to the song and then listen to me.*	*Listen to him.*	**DIWEDD**

Quizlet

â/ag	at	ar	am
cwrdd â	ysgrifennu at	blino ar	edrych am
cyffwrdd â	anfon at	gweddïo ar	gofyn am
dod â	mynd at	edrych ar	sôn am
mynd â	anelu at	gweiddi ar	talu am
peidio â	cyfeirio at	gwenu ar	gorffen am
sgwrsio â	cerdded at	gwrando ar	mynd am
siarad â	symud at	sylwi ar	siopa am

Rhagenwau

- Ei (his) – treiglad meddal – ei dad, ei frawd
- Ei (her) Treiglad Llaes + H
- Ei chath, Ei thad, ei hysgol

- Eu (their) – Dim treiglad ond 'H'
- Eu cath, eu tad, eu hysgol
- Ein (our) – Dim treiglad ond 'H'
- Ein hysgol, ein hamser

RHAGENWAU

- Gall tadau ddangos pwysigrwydd darllen i'w plant gan dangos ei bod yn gallu bod yn hwyl.
- Mae'r cynllun yn darparu llyfrau ac awduron i fechgyn o bob oed y gellir ei defnyddio gan rieni.
- Mae Mari'n rhyngweithio'n effeithiol gyda'i chyfoedion, wrth rannu gydag eraill a'i pharchu.
- Mae Elin yn dangos balchder aeddfed yn ei waith.
- Mae Alys yn medru cofio gwybodaeth o lyfr a'i ddefnyddio i'w helpu.
- Mae'n bwysig bod Jac yn herio'i hun yn ystod ei gwaith.
- Mae angen ysgogi Martha i gwblhau ei waith gan ei fod yn yn cael hi'n anodd.

Ôl-gyfeirio: Ble mae'r gwallau?

Mae'r cynllun yn darparu llyfrau ac awduron i fechgyn o bob oed y gellir **eu** defnyddio gan rieni.

Mae Mari'n rhyngweithio'n effeithiol gyda'**i** chyfoedion, wrth rannu gydag eraill a'**u** parchu.

https://wordwall.net/resource/195593

Trowch eich dyfais ar ei ochr er mwyn chwarae!

- Rhedodd Siân yn gyflym rhag iddi go… thrên i Gaerdydd.
- Roed… Eleri… yn y prawf…
- …amry… ei pholisïau.
- Mae'r …sg yn hollbwysig a'i phwrpas yn glir.
- Mae'r gliniaduron yn y cwpwrdd a'u ceblau yn y bocs.

CYWIR

- Roedd Elen ac Eleri yn anhapus gyda'i marciau yn y prawf.
- Penderfynodd Hel… …u … …adolig i'w gef…
- Ron…

ANGHYWIR

… per… …d.

- Ma… …n g… …wn a'i …efn yn glir.
- Roe… y gwasanaeth yn wych a'i chynnwys yn berthnasol.

Geiriau Tebyg

Edrychwch ar y geiriau tebyg canlynol. Beth yw eu hystyr?

- a â
- ael ail
- aer aur
- ar a'r
- bai bae
- can cân
- car câr
- clai clau
- gwaeth gwaith
- hud hyd
- hyn hŷn hun
- lau iau
- ir i'r
- Seilio selio
- i'w yw
- Llun llun llyn
- lliw llyw
- mae'r maer
- melyn melin
- mor môr
- mil mul
- os oes
- poblogaidd poblogaeth
- tal tâl
- tan tân
- ti tu tŷ